Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Materion Ariannol: darpariaeth addysg ariannol i bobl ifanc rhwng 7 ac 19 mlwydd oed mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru

Mehefin 2011

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd
Green Dragon Environmental Standard

Iechyd ar Waith
Cyrraedd y Nod
The Corporate Standard
Health at Work

BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol (ALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd; a
- dysgu troseddwyr.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen benodol/y cyhoeddiad penodol.

Cynnwys	Tudalen

Crynodeb **1**

Prif ganfyddiadau **2**

Argymhellion **4**

Cyd-destun **5**

Cyflwyniad 5
Cefndir 5

Gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau ariannol dysgwyr **7**

Cynllunio a chyflwyno addysg ariannol **9**

Gweithio mewn partneriaeth **10**

Datblygiad staff ac adnoddau **11**

Datblygiad staff 11
Adnoddau 11

Arweinyddiaeth ac arfarnu **13**

Arweinyddiaeth 13
Arfarnu 13

Atodiad 1: Sail y dystiolaeth
Atodiad 2: Astudiaethau achos
Atodiad 3: Geirfa
Atodiad 4: Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg

Crynodeb

Caiff bron pob dysgwr gyfleoedd yn yr ysgol i ddatblygu eu gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth o faterion ariannol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion, yn enwedig ysgolion uwchradd, yn cyflwyno addysg ariannol trwy wersi addysg bersonol a chymdeithasol yn bennaf. Fodd bynnag, nid yw'r gwersi hyn yn ddigon da ar eu pen eu hunain i wneud yn siŵr bod gan ddysgwyr wybodaeth a dealltwriaeth dda o faterion ariannol neu'r medrau i wneud penderfyniadau ariannol cadarn pan fyddant yn hŷn. At ei gilydd, mae gan ddysgwyr wybodaeth, dealltwriaeth a medrau ariannol digonol.

Mae lleiafrif o ysgolion wedi mynd ati'n ofalus i gynllunio a mapio cyfleoedd ar gyfer addysg ariannol mewn pynciau neu destunau ar draws y cwricwlwm. Yn aml, mae gan yr ysgolion hyn gydlynydd sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am y gwaith hwn ac maent yn cynnwys y rhan fwyaf o staff mewn cyflwyno addysg ariannol. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif yr ysgolion yn cynllunio cyfleoedd yn ddigon da i ddysgwyr atgyfnerthu a chymhwyso eu medrau ariannol mewn cyd-destunau gwahanol ar draws y cwricwlwm neu i wneud yn siŵr bod parhad a dilyniant yn y cwricwlwm addysg ariannol.

Mae diffyg adnoddau Cymraeg ar gyfer addysg ariannol. Mae nifer o adnoddau wedi cael eu cyfieithu, ond nid yw athrawon bob amser yn gwybod sut neu ble i gael gafael arnynt. Mae sefydliadau ariannol cenedlaethol wedi cynhyrchu adnoddau fel gemau rhyngweithiol sy'n apelio at ddysgwyr, ond nid yw'r rhan fwyaf o'r rhain ar gael yn Gymraeg.

Prif ganfyddiadau

1 Mae bron pob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r arolwg hwn wedi addasu eu cwricwlwm yn ddiweddar i gynnwys darpariaeth ar gyfer addysg ariannol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion, yn enwedig ysgolion uwchradd, yn cyflwyno addysg ariannol trwy wersi addysg bersonol a chymdeithasol yn bennaf. Fodd bynnag, nid yw'r gwersi hyn yn ddigon ar eu pen eu hunain i wneud yn siŵr bod gan ddysgwyr wybodaeth a dealltwriaeth dda o faterion ariannol neu'r medrau i wneud penderfyniadau ariannol cadarn pan fyddant yn hŷn. At ei gilydd, mae gan ddysgwyr wybodaeth, dealltwriaeth a medrau ariannol digonol.

2 Mae llawer o ysgolion yn cynllunio gweithgareddau i ddatblygu dealltwriaeth dysgwyr o faterion ariannol. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif yr ysgolion yn cydlynu'r cyfleoedd hyn yn ddigon da i ddysgwyr atgyfnerthu a chymhwyso medrau ariannol mewn cyd-destunau gwahanol ar draws y cwricwlwm neu i wneud yn siŵr bod parhad a dilyniant yn eu haddysg ariannol. Mae diffyg amser cwricwlwm hefyd yn rhwystro datblygiad addysg ariannol.

3 Mewn lleiafrif o ysgolion sydd wedi datblygu dull cydlynus ar gyfer addysg ariannol, mae gan ddysgwyr ddealltwriaeth dda o faterion ariannol ac maent yn cymhwyso eu dysgu i sefyllfaoedd perthnasol fel cyllid teuluol neu faterion ariannol cyfoes yn y cyfryngau. Mae'r ysgolion hyn wedi mynd ati'n ofalus i gynllunio a mapio gweithgareddau ar gyfer addysg ariannol mewn pynciau neu destunau ar draws y cwricwlwm. Caiff gweithgareddau ac adnoddau eu gweddu'n ofalus i ddiddordebau ac anghenion dysgwyr ac maent yn gwneud y gorau o'r cyfleoedd i ddatblygu dealltwriaeth, medrau a gwybodaeth dysgwyr. Mae'r gweithgareddau hyn yn aml yn cynnwys gwaith grŵp neu dasgau ymarferol ac maent yn cysylltu â sefyllfaoedd bywyd go iawn.

4 Yn aml, mae uwch arweinydd sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am gydlynu hyfforddi, cynllunio, cyflwyno ac arfarnu addysg ariannol ar draws y cwricwlwm yn lleiafrif yr ysgolion lle mae darpariaeth addysg ariannol wedi'i sefydlu'n dda. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg ariannol yn llai effeithiol lle nad oes cydlynydd, ac mae hyn yn aml yn arwain at ddyblygu ymdrech, a diffyg dilyniant mewn addysgu a dysgu.

5 Mae diffyg adnoddau cyfrwng Cymraeg ar gyfer addysg ariannol. Mae nifer o adnoddau wedi'u cyfieithu, ond nid yw athrawon bob amser yn gwybod sut neu ble i gael gafael arnynt. Mae sefydliadau ariannol cenedlaethol wedi cynhyrchu adnoddau fel gemau rhyngweithiol sy'n apelio at ddysgwyr, ond nid yw'r rhan fwyaf o'r rhain ar gael yn Gymraeg. Mae llawer o ysgolion wedi cael hyfforddiant gan Uned Addysg Ariannol Cymru a gallant ddefnyddio ystod o adnoddau i gefnogi eu gwaith. Fodd bynnag, lleiafrif yn unig o'r adnoddau hyn sydd ar gael yn ddwyieithog, ac yn aml, mae'n rhaid i ddysgwyr cyfrwng Cymraeg ddefnyddio adnoddau Saesneg neu mae'n rhaid i athrawon eu cyfieithu.

6 Mae gan fwyafrif o ysgolion bartneriaethau effeithiol gyda busnesau lleol, elusennau ac undebau credyd. Mae'r partneriaethau hyn yn helpu ysgolion i gefnogi eu darpariaeth addysg ariannol ac mae athrawon a dysgwyr yn elwa ar gael arweiniad a chyngor gan wasanaethau arbenigol. Er hynny, mae mwyafrif o ysgolion ledled

Cymru wedi'i chael yn gynyddol anodd sefydlu a chynnal partneriaethau effeithiol gyda sefydliadau ariannol. Pan fydd partneriaethau'n bodoli, mae hyn oherwydd bod gan ysgolion gysylltiadau hirsefydledig gydag unigolion neu sefydliadau.

7 Nid yw unrhyw un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn gweithio gydag ysgolion eraill i ddatblygu eu darpariaeth addysg ariannol, er bod llawer ohonynt yn awyddus i wneud hynny. Hyd nes yn ddiweddar, nid oedd ysgolion wedi cael arweiniad effeithiol ar sut i ddatblygu darpariaeth addysg ariannol i fodloni anghenion dysgwyr. Nid yw lleiafrif o benaethiaid yn ddigon ymwybodol o'r arweiniad presennol sydd ar gael sy'n cael ei lunio gan Lywodraeth Cynulliad Cymru neu'r hyfforddiant sydd ar gael i gefnogi eu rhaglen addysg ariannol.

8 Prin yw'r ysgolion sy'n monitro neu'n arfarnu effaith addysg ariannol ar ddealltwriaeth, medrau a gwybodaeth disgyblion. Er bod ysgolion yn gofyn i ddysgwyr arfarnu gweithgareddau yn gynyddol, anaml y defnyddir yr arfarniadau hyn i lywio cynllunio at y dyfodol neu i wella addysgu a dysgu.

9 Megis dechrau datblygu eu gwybodaeth am addysg ariannol y mae awdurdodau lleol. Mae bron pob awdurdod lleol wedi defnyddio gwasanaethau Uned Addysg Ariannol Cymru i gyflwyno hyfforddiant ar gyfer eu hysgolion. Dim ond ychydig bach o awdurdodau sydd wedi nodi arfer orau yn eu hysgolion.

Argymhellion

Dylai ysgolion:

A1 gynllunio rhaglen gydlynus a dilyniadol o weithgareddau addysg ariannol ar draws y cwricwlwm;

A2 monitro ac arfarnu cynnydd dysgwyr mewn datblygu a chymhwyso eu gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth ariannol; a

A3 chynnig digon o hyfforddiant i athrawon gyflwyno addysg ariannol yn effeithiol.

Dylai awdurdodau lleol:

A4 weithio gydag Uned Addysg Ariannol Cymru a sefydliadau ariannol i roi cymorth addysg ariannol gwell i ysgolion; ac

A5 annog ysgolion i rannu arfer orau a ffyrdd arloesol o addysgu a dysgu am addysg ariannol.

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

A6 ddatblygu cronfa ddata ranbarthol o sefydliadau a all gefnogi a rhannu arfer dda gydag ysgolion ac awdurdodau lleol; a

A7 pharhau i gefnogi datblygiad adnoddau addysg ariannol Cymraeg.

Cyd-destun

Cyflwyniad

10 Lluniwyd yr adroddiad hwn i ymateb i gais am gyngor gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn llythyr cylch gwaith blynyddol y Gweinidog at Estyn ar gyfer 2010-2011. Mae'r adroddiad yn arfarnu ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer addysg ariannol dysgwyr, yn nodi astudiaethau achos arfer dda ac yn darparu argymhellion ar gyfer gwella yn y ddarpariaeth addysg ariannol ar gyfer dysgwyr rhwng saith ac 19 mlwydd oed mewn ysgolion yng Nghymru.

11 Mae'r adroddiad wedi'i fwriadu ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru, uwch arweinwyr a staff mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig, ymgynghorwyr awdurdodau lleol a sefydliadau hyfforddi athrawon.

Cefndir

12 Fel rhan o'r ymrwymiad i fynd i'r afael ag eithrio ariannol, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei Strategaeth Cynhwysiant Ariannol i Gymru yng Ngorffennaf 2009. Amlinellodd y strategaeth weledigaeth, polisi a chynllun Llywodraeth Cynulliad Cymru i hyrwyddo cynhwysiant ariannol. Nododd fod cydraddoldeb a chynhwysiant yn faes allweddol ar gyfer gweithredu 'gan ei gwneud yn bosibl i holl ddinasyddion Cymru fanteisio ar wasanaethau ariannol, a gwasanaethau addysg a chyngor.'

13 Sefydlwyd Uned Addysg Ariannol Cymru yn 2008 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru fel un agwedd ar ei Strategaeth Cynhwysiant Ariannol. Sefydlwyd yr uned i ddechrau tan Ebrill 2011 ac mae wedi canolbwyntio ar ddarparu rhaglen dreigl o gyngor a chymorth ar gyfer cynllunio a chyflwyno addysg ariannol ar gyfer dysgwyr rhwng saith ac 19 mlwydd oed mewn ysgolion.

14 Mae Uned Addysg Ariannol Cymru wedi gweithio gydag ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig ar draws 20 o'r 22 awdurdod lleol. Er bod yr hyfforddiant a gynigir i ysgolion cynradd ac uwchradd yn cael ei gyflwyno mewn gwahanol ffyrdd, mae'r ffocws ar arfarnu adnoddau, lledaenu arfer orau a chynllunio ar gyfer gweithredu yr un fath.

15 Cyhoeddwyd 'Addysg ariannol i bobl ifanc rhwng 7 ac 19 oed yng Nghymru: Canllawiau i ysgolion a cholegau' gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar ei gwefan yn nhymor y gwanwyn 2011. Nid yw hwn yn cael ei arfarnu fel rhan o'r cylch gwaith hwn oherwydd cwblhawyd holl ymweliadau Estyn ag ysgolion cyn cyhoeddi'r arweiniad hwn.

16 Amlygir addysg ariannol a defnyddio arian yng Ngorchmynion diwygiedig y Cwricwlwm Cenedlaethol (2008) a chyfeirir atynt yn y canlynol:

- Gorchymyn Pwnc mathemateg y CC ar gyfer pobl ifanc rhwng saith ac 16 oed;
- mathemateg TGAU;
- y fframwaith medrau anstatudol ar gyfer dysgwyr rhwng tair ac 19 oed;
- y fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol anstatudol ar gyfer pobl ifanc rhwng saith ac 19 oed; a'r
- fframwaith Gyrfaoedd a Byd Gwaith anstatudol ar gyfer pobl ifanc rhwng 11 ac 19 oed.

Gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau ariannol dysgwyr

17 At ei gilydd, mae gan ddysgwyr wybodaeth, dealltwriaeth a medrau digonol. Mae'r pwyslais cynyddol diweddar ar addysg ariannol mewn ysgolion, ac mewn ysgolion uwchradd penodol, wedi arwain at welliant yng ngwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o agweddau penodol ar faterion ariannol, fel gwahanol fathau o gardiau credyd. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif yr ysgolion yn cynllunio digon o gyfleoedd, nac yn cydlynu cyfleoedd yn ddigon da i ddysgwyr atgyfnerthu a chymhwyso eu medrau ariannol yn gynyddol mewn cyd-destunau gwahanol ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, nid yw dysgwyr yn meddu ar ystod y medrau wedi'u hymarfer yn dda sydd eu hangen i wneud penderfyniadau ariannol cadarn pan fyddant yn hŷn.

18 Mae llawer o ddysgwyr yn mwynhau ac yn elwa ar y mewnbynnau a gânt gan sefydliadau ariannol a sefydliadau elusennol, fel Debt Cred a'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth, er bod mynediad i'r sefydliadau hyn yn amrywio o fewn ysgolion, a rhyngddynt. Mae gan fwyafrif o ddysgwyr ymwybyddiaeth gynyddol erbyn hyn o bwysigrwydd materion ariannol, ac mae ganddynt agwedd gadarnhaol tuag atynt. Yn benodol:

- maent yn ystyried addysg ariannol yn fedr allweddol;
- maent yn dangos diddordeb cynyddol mewn materion ariannol; ac
- maent yn gynyddol ymwybodol o'r angen i ddatblygu medrau penodol i wneud penderfyniadau ariannol cadarn.

19 Mewn un ysgol uwchradd, caiff dysgwyr Blwyddyn 10 gyfres o wersi, sy'n canolbwyntio ar gynllunio ariannol ar gyfer y dyfodol yn ogystal ag arfarnu gwahanol fathau o gredyd. Mae'r pennaeth cynorthwyol yn cynllunio'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yn ofalus i wneud yn siŵr bod dysgwyr yn adeiladu'n llwyddiannus ar y medrau ariannol y maent eisoes wedi'u datblygu yn ystod y cyfnod allweddol blaenorol. Mae llawer o ddysgwyr yn deall ac yn gallu defnyddio ystod o derminoleg ariannol gymhleth ac mae ganddynt y medrau i ddehongli a dadansoddi rhywfaint o ddogfennaeth ariannol allweddol.

20 Mae rhai dysgwyr yn gadarnhaol ynglŷn â'r cyfle y maent wedi'i gael i ennill cymwysterau yn gysylltiedig ag addysg ariannol. Mewn lleiafrif cynyddol o ysgolion, caiff dysgwyr yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 y cyfle i weithio tuag fedrau hanfodol cymwysterau Cymru ar lefel 1 a lefel 2. Mae dysgwyr yn astudio sefyllfaoedd bywyd go iawn, gan gynnwys archebu gwyliau teuluol, dewis pris ffôn symudol a threfnu parti pen-blwydd i ddefnyddio'r medrau ariannol a ddysgwyd ganddynt yn ddiweddar.

21 Mewn un ysgol uwchradd, mae myfyrwyr Blwyddyn 12 yn dilyn cwrs medrau gwaith y Cyngor Addysg Busnes a Thechnegydd (BTEC) lle mae'r athro yn neilltuo cryn dipyn o amser y cwricwlwm ar gyfer addysg ariannol. O ganlyniad, mae gan lawer o ddysgwyr yn y grŵp hwn ddealltwriaeth gynhwysfawr o faterion ariannol sy'n llawer mwy trylwyr a manwl na'u cyfoedion nad ydynt wedi dilyn yr un cwrs. Mae'r cwrs achrededig hwn, wedi'i gyfuno â lleoliadau profiad gwaith, yn galluogi dysgwyr i ddatblygu ac atgyfnerthu eu gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth mewn cyd-destun bywyd go iawn.

22 Mewn un ysgol gynradd, mae dysgwyr Blwyddyn 5 a Blwyddyn 6 wedi datblygu eu dealltwriaeth o faterion ariannol yn y cartref. Fe wnaethant dreulio cyfres o wersi yn paratoi cyflwyniadau grŵp am gyllidebu yn y cartref. Erbyn hyn, mae gan bron bob un o'r dysgwyr ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd cyllidebu er mwyn rheoli taliadau biliau, ac roeddent yn gallu awgrymu ffyrdd i deuluoedd gynilo a gwneud penderfyniadau sy'n fwy cadarn yn ariannol, trwy siopa o gwmpas am gyflenwyr ynni a thalu biliau trwy ddebyd uniongyrchol er mwyn gallu manteisio ar ostyngiadau.

Cynllunio a chyflwyno addysg ariannol

23 Mae uwch arweinwyr, athrawon a dysgwyr ym mhob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn ystod yr arolwg hwn yn cydnabod bod addysg ariannol yn rhan bwysig a pherthnasol o'r hyn y dylid ei gynnwys fel rhan o ddatblygiad personol a chymdeithasol dysgwyr. Er hynny, ym mwyafrif yr ysgolion, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer addysg ariannol wedi'i datblygu'n ddigon effeithiol ar draws y cwricwlwm i sicrhau parhad a dilyniant yng ngwybodaeth, medrau a dealltwriaeth dysgwyr.

24 Mae mwyafrif o'r ysgolion cynradd yr ymwelwyd â nhw wedi mabwysiadu ymagweddau arloesol tuag at addysg ariannol. Mae enghreifftiau yn cynnwys wythnosau thematig yn canolbwyntio ar agweddau ar addysg ariannol, gan gynnwys cyllidebu, cynilion, talu biliau a gwahanol fathau o gredyd. Mae'r ysgolion hyn wedi datblygu cynlluniau cwricwlwm manwl yn amlinellu cyfleoedd diddorol a difyr i ddysgwyr ddatblygu eu dealltwriaeth a'u medrau ariannol. Yn ogystal ag wythnosau thematig, caiff addysg ariannol dysgwyr ei datblygu a'i hatgyfnerthu trwy sesiynau ar wahân a gweithgareddau allgyrsiol. Yn yr ysgolion hyn, mae dilyniant da o un gweithgaredd i'r llall, gan adeiladu ar ddysgu blaenorol dysgwyr.

25 Mae bron pob ysgol uwchradd wedi cyflwyno agweddau ar addysg ariannol. Fodd bynnag, mewn llawer o ysgolion uwchradd, nid yw'r cwricwlwm – ac yn arbennig y cwricwlwm addysg bersonol a chymdeithasol – yn rhoi digon o amser i ddysgwyr ddysgu am faterion ariannol neu ddatblygu'r medrau y mae eu hangen i wneud penderfyniadau ariannol cadarn ac annibynnol.

26 Mae lleiafrif cynyddol o ysgolion yn darparu llawer o'u haddysg ariannol fel diwrnod thematig, am ddiwrnod y tymor fel arfer. Yn ystod y diwrnodau hyn, mae'r gyfradd presenoldeb yn aml yn is nag arfer ac nid yw pob un o'r dysgwyr yn cael y cyfle i atgyfnerthu a datblygu eu medrau a'u dealltwriaeth o faterion ariannol oherwydd natur unigryw'r gweithgareddau.

27 Er bod gwersi neu weithgareddau yn ddiddorol a pherthnasol i ddysgwyr yn y rhan fwyaf o achosion, mae diffyg cynllunio ar draws y cwricwlwm yn aml yn golygu nad yw dysgwyr yn gwneud cynnydd yn eu gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth ariannol.

28 Mae gan lawer o ysgolion ddealltwriaeth glir o'r modd y gellir cyflwyno addysg ariannol ar draws y cwricwlwm. Mae mwyafrif yr ysgolion cynradd yr ymwelwyd â nhw wedi mapio'r ddarpariaeth yn ofalus ar draws y cwricwlwm, gan nodi ystod o gyfleoedd a gweithgareddau lle gall dysgwyr ddatblygu eu gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth yn gysylltiedig ag addysg ariannol mewn pynciau, testunau neu themâu. Fodd bynnag, mae llai o ysgolion uwchradd wedi mapio'r ddarpariaeth ar draws y cwricwlwm.

29 Yn aml lle nad yw'r ddarpariaeth addysg ariannol wedi'i datblygu'n llawn, caiff cyfrifoldeb am addysg ariannol ei rannu rhwng hyd at dri o feysydd y cwricwlwm ac nid oes gan unrhyw faes neu unigolyn penodol gyfrifoldeb am gydlynu, monitro neu arfarnu'r addysgu a'r dysgu.

Gweithio mewn partneriaeth

30 Er bod gweithio mewn partneriaeth fel arfer yn nodwedd gref o'r cwricwlwm addysg bersonol a chymdeithasol, mae'r gweithio mewn partneriaeth rhwng ysgolion a sefydliadau ariannol fel banciau a chymdeithasau adeiladu, i hyrwyddo addysg ariannol dysgwyr, wedi dirywio yn y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn wedi cyfyngu ar y ddarpariaeth sydd ar gael i ddysgwyr. Yn y gorffennol, mae dysgwyr hŷn, yn arbennig, wedi elwa ar gael arweiniad arbenigol gan sefydliadau ariannol wrth iddynt baratoi ar gyfer cyflogaeth neu addysg bellach.

31 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi'i chael yn gynyddol anodd a llafurus datblygu partneriaethau effeithiol gyda banciau a chymdeithasau adeiladu lleol. Dim ond rhai sefydliadau ac elusennau ariannol sy'n gallu darparu arweiniad, adnoddau neu fewnbwn cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn cyfyngu ar y cyfle a gaiff disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg i fanteisio ar gymorth arbenigol.

32 Yn y lleiafrif o ysgolion lle mae partneriaethau effeithiol yn bodoli gydag arbenigwyr ariannol, mae hynny naill ai oherwydd penderfyniad y staff i ddyfalbarhau i fanteisio ar arweiniad arbenigol neu oherwydd hanes hirsefydledig rhwng ysgolion a sefydliadau ariannol neu sefydliadau elusennol penodol.

33 Mae gan fwyafrif o ysgolion gysylltiadau da gyda busnesau lleol. Yn yr ysgolion hyn, mae gweithgareddau menter effeithiol yn rhoi cyfle i ddysgwyr weithio gyda busnesau lleol i ddatblygu ystod o fedrau ariannol, gan gynnwys cyllidebu, cyfrifo elw a cholled a datblygu synnwyr barn cadarn ynglŷn â sut gellir defnyddio arian yn effeithiol.

34 Mae rhai ysgolion yn datblygu partneriaethau defnyddiol gydag undebau credyd lleol. Caiff dysgwyr yng nghyfnod allweddol 4 mewn un ysgol hyfforddiant i redeg eu hundeb credyd eu hunain. Mae hyn yn galluogi dysgwyr hŷn i ennill medrau ymarferol a dangos diddordeb a chymryd cyfrifoldeb am eu penderfyniadau ariannol eu hunain. Er gwaethaf manteision y bartneriaeth gyda'r undeb credyd i ddatblygu medrau ariannol dysgwyr, dim ond ychydig bach o ysgolion uwchradd ac ychydig iawn o ysgolion cynradd sydd wedi dechrau datblygu cysylltiadau effeithiol. Nid oedd mwyafrif yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn ymwybodol o'u hundeb credyd lleol ac ni wnaed ymgais i ddatblygu cysylltiadau â'u sefydliad lleol.

35 Trwy Gyrfa Cymru, mae un ysgol wedi datblygu cysylltiadau effeithiol gyda Debt Cred. Mae'r sefydliad hwn yn ymweld â'r ysgol ac yn darparu rhaglen fanwl, sy'n canolbwyntio ar annibyniaeth ariannol a'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen ar bobl ifanc i wneud penderfyniadau ariannol cadarn.

Datblygiad staff ac adnoddau

Datblygiad staff

36 Mae bron pob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn ystod yr arolwg hwn wedi mynychu hyfforddiant a ddarperir gan Uned Addysg Ariannol Cymru. Bron ym mhob achos, hon yw'r unig ffynhonnell hyfforddiant y gwnaethant fanteisio arni i gefnogi datblygiad addysg ariannol. Mae ysgolion yn elwa ar y cymorth targedig hwn ac fe gânt gyfle i drafod arfer orau mewn addysg ariannol. Yr hyfforddiant o ansawdd uchel hwn yw un o'r rhesymau pam mae lleiafrif o ysgolion wedi gwneud cynnydd mor dda yn datblygu eu darpariaeth addysg ariannol.

37 Mewn llawer o ysgolion cynradd, mae uwch arweinwyr wedi mynychu'r hyfforddiant. Fodd bynnag, mewn ysgolion uwchradd, mae arweinwyr canol wedi mynychu'r hyfforddiant. O ganlyniad, mae'r dull a fabwysiadwyd gan ysgolion cynradd ac uwchradd yn aml wedi bod yn wahanol. Ychydig iawn o ysgolion sydd wedi cynnal hyfforddiant addysg mewn swydd am addysg ariannol ar gyfer pob un o'r staff. O ganlyniad, nid yw pob un o'r athrawon sy'n cymryd rhan mewn cyflwyno addysg ariannol yn meddu ar y wybodaeth, y medrau a'r hyder i gyflwyno'r agwedd hon ar y cwricwlwm yn dda. Nid yw'r rhan fwyaf o ysgolion wedi cael hyfforddiant yn uniongyrchol gan swyddogion awdurdodau lleol. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion, mae'r awdurdod lleol wedi helpu staff ysgolion i fynychu'r hyfforddiant a ddarperir gan Uned Addysg Ariannol Cymru.

38 Nid oedd rhai o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn ymwybodol bod hyfforddiant addysg ariannol ar gael. Nid oeddent yn gwybod gyda phwy i gysylltu i gael cymorth ychwanegol ac nid oeddent yn ymwybodol o'r ffaith fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ariannu uned i hyrwyddo a datblygu addysg ariannol. Er gwaethaf hyn, maent wedi gallu gwneud cynnydd mewn datblygu eu haddysg ariannol ac fe wnaethant ddatgan mai eu prif ffynhonnell ar gyfer adnoddau oedd gwefan y grŵp addysg cyllid personol (www.pfeg.org.uk).

39 Ychydig iawn o ysgolion sy'n rhannu eu harfer o fewn eu hawdurdod lleol trwy grwpiau arfer dda ac nid oes gan unrhyw awdurdodau a ymatebodd i'r holiadur weithgorau na chymunedau dysgu proffesiynol sy'n mynd i'r afael yn benodol ag addysg ariannol. Nid yw'r un o'r ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt wedi ymweld ag ysgolion eraill i rannu eu harfer dda neu ddysgu oddi wrth eraill. Ychydig iawn o ysgolion yn unig sy'n dechrau datblygu partneriaethau gydag ysgolion eraill yn yr un clwstwr i ganolbwyntio'n benodol ar yr agwedd hon ar y cwricwlwm.

Adnoddau

40 Mae digon o adnoddau ar gael i gefnogi ysgolion i gyflwyno addysg ariannol yn Saesneg. Mae mwyafrif o ysgolion yn defnyddio ystod o wefannau ledled y DU yn rheolaidd i gael deunyddiau priodol. Mae ystod dda o adnoddau ysgogol a difyr ar gael y mae athrawon cynradd yn eu defnyddio'n dda. Mewn rhai achosion, mae ysgolion wedi addasu'r adnoddau hyn i fodloni anghenion penodol eu dysgwyr.

41 Er bod nifer o adnoddau poblogaidd wedi cael eu cyfieithu i'r Gymraeg, mae prinder adnoddau Cymraeg ar y cyfan. Pan fydd adnoddau Cymraeg yn bodoli, nid yw ysgolion bob amser yn gwybod sut neu ble i gael gafael arnynt. Mewn ysgolion uwchradd, mae athrawon yn defnyddio adnoddau ar-lein a gynhyrchir gan sefydliadau ariannol cenedlaethol. Mae dysgwyr yn mwynhau cwblhau'r gemau a'r gweithgareddau rhyngweithiol. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o'r gwefannau hyn yn cynnwys adnoddau dwyieithog.

Arweinyddiaeth ac arfarnu

Arweinyddiaeth

42 Mae gan leiafrif o ysgolion arweinydd canol neu uwch arweinydd sydd â chyfrifoldeb am addysg ariannol. Fodd bynnag, mae hyn yn amrywio'n sylweddol rhwng ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd. Bron ym mhob achos, mae'r cyfrifoldeb hwn yn rhan o rôl ehangach y cydlynydd addysg bersonol a chymdeithasol neu'r arweinydd pwnc mathemateg. Mae'r cydlynwyr hyn yn gyfrifol am ddewis a datblygu adnoddau ac maent yn darparu hyfforddiant ar gyfer cydweithwyr.

43 Pan fydd gan ysgolion aelod o staff sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am addysg ariannol, nid yw hyn bob amser yn arwain at ddarpariaeth ansawdd uchel. Gall ffactorau eraill, er enghraifft diffyg amser cwricwlwm, rwystro datblygu darpariaeth addysg ariannol a datblygu arfer effeithiol.

44 Mewn llawer o'r ysgolion cynradd yr ymwelwyd â nhw, mae gan uwch aelod o staff gyfrifoldeb am addysg ariannol. Mewn achosion felly, rhoddir blaenoriaeth gymharol uchel i addysg ariannol, ac fe gaiff gweithgareddau ysgol gyfan eu trefnu i hyrwyddo'r agwedd hon ar y cwricwlwm a datblygu dealltwriaeth a medrau dysgwyr.

45 Er bod gan aelod o'r uwch dîm arweinyddiaeth gyfrifoldeb am addysg bersonol a chymdeithasol mewn lleiafrif o'r ysgolion uwchradd yr ymwelwyd â nhw, mewn ychydig iawn o achosion yn unig y trefnwyd gweithgareddau ysgol gyfan sy'n canolbwyntio'n benodol ar addysg ariannol. Un o'r rhesymau dros hyn yw'r anhawster wrth ddod o hyd i asiantaethau arbenigol i gefnogi'r ysgol gyda'r gwaith hwn. Efallai hefyd nad oes gan yr athrawon sy'n ymwneud â chyflwyno addysg bersonol a chymdeithasol yr hyder i gyflwyno'r agwedd hon ar y cwricwlwm yn effeithiol.

46 Mewn ysgolion uwchradd, mae Uned Addysg Ariannol Cymru wedi canolbwyntio ei hyfforddiant ar arweinwyr canol. Mewn lleiafrif o ysgolion, caiff addysg ariannol ei hintegreiddio ar draws y cwricwlwm, ond mae'n aml ar ffurf ambell wers ychwanegol ar gyfer dysgwyr o fewn yr amser a neilltuir ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol. Mae bron pob un o'r penaethiaid neu'r uwch arweinwyr y gwnaed arolwg ohonynt yn deall pwysigrwydd gwella medrau a dealltwriaeth dysgwyr mewn addysg ariannol.

Arfarnu

47 Nid yw llawer o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn mynd ati'n ddigon effeithiol i fonitro, arfarnu neu adolygu effaith eu rhaglen addysg ariannol ar wybodaeth dysgwyr. Mae mwyafrif yr ysgolion yn dibynnu ar dystiolaeth anecdotaidd gan ddysgwyr, staff a rhieni am effaith gweithgareddau addysg ariannol. Ym mwyafrif yr achosion, nid yw'r wybodaeth hon yn dylanwadu digon ar gynllunio yn y dyfodol.

48 Yn y lleiafrif bach o ysgolion lle caiff addysg ariannol ei harfarnu, mae dysgwyr, rhieni ac athrawon yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cynnwys:

- llenwi holiaduron;
- arfarnu agwedd dysgwyr tuag at addysg ariannol;
- arsylwi gwersi addysg bersonol a chymdeithasol, gyda ffocws penodol ar addysg ariannol; a
- chraffu ar waith dysgwyr i arfarnu'r ffordd y maent wedi elwa o ran eu gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth.

49 Mae llawer o ysgolion cynradd ac uwchradd yn ymgynghori â'u dysgwyr trwy nifer o fforymau fel cynghorau ysgol neu gynghorau blwyddyn. Caiff llawer o ddysgwyr gyfle i ddylanwadu ar y math o weithgareddau y maent yn ymgymryd â nhw. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o ysgolion, nid oes ffocws cryf wedi bod ar fonitro, arfarnu, datblygu a gwella'r ddarpariaeth ar gyfer addysg ariannol.

50 Mewn nifer gynyddol o ysgolion cynradd, mae mewnbwn gan ddysgwyr yn dylanwadu ar gynllunio'r athrawon ac fe gaiff effaith uniongyrchol ar ystod y gweithgareddau y mae dysgwyr yn ymgymryd â nhw. Mewn ychydig iawn o ysgolion, ar ddechrau wythnos thematig, mae dysgwyr yn llenwi holiaduron i bennu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o faterion ariannol. Mae'r athro yn casglu'r holiaduron hyn i ddarparu ffocws ar gyfer gweithgareddau yn ystod yr wythnos.

51 Mae rhai ysgolion uwchradd yn ymgynghori â dysgwyr ynglŷn â chyflwyno a strwythur addysg bersonol a chymdeithasol. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o'r achosion hyn, mae'r ymgynghori hwn wedi bod yn rhy gyffredinol ac nid yw wedi cynnwys ffocws penodol ar ddarpariaeth addysg ariannol. Mewn ychydig iawn o ysgolion, mae mewnbwn gan ddysgwyr wedi cael effaith arwyddocaol ac uniongyrchol ar gynllunio'r cwricwlwm. Mewn un ysgol, penderfynodd dysgwyr eu bod am gael gwers addysg bersonol a chymdeithasol ar wahân unwaith bob pythefnos yn hytrach na diwrnodau thematig wedi'u hamserlennu trwy gydol y flwyddyn. Mae adborth gan ddysgwyr hefyd wedi helpu penderfynu ar gynnwys cynlluniau gwaith a gwersi addysg bersonol a chymdeithasol.

52 Mae llawer o ysgolion cynradd ac uwchradd yn darparu cyfleoedd ar gyfer hunanarfarnu ar ddiwedd wythnos thematig, uned waith benodol neu dymor ysgol. Dim ond mewn lleiafrif o achosion y caiff y wybodaeth hon ei defnyddio'n effeithiol i lywio a gwella cynllunio ac arfer yn y dyfodol.

Atodiad 1: Sail y dystiolaeth

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio:

- ymweliadau gan Estyn i samplo naw ysgol gynradd, deg ysgol uwchradd ac un ysgol arbennig yn hydref 2010. Dewiswyd yr ysgolion hyn oherwydd bod staff naill ai wedi mynychu hyfforddiant addysg ariannol a ddarperir gan Uned Addysg Ariannol Cymru neu nodwyd bod eu darpariaeth addysg ariannol yn enghraifft o arfer dda gan yr awdurdod lleol. Yn ystod yr ymweliadau, fe wnaeth arolygwyr gyfweld ag uwch arweinwyr ac athrawon sy'n gyfrifol am addysg ariannol, archwilio dogfennaeth a chyfarfod â grwpiau o ddysgwyr; a
- holiaduron a ddychwelwyd gan swyddogion o 17 o'r 22 awdurdod lleol y gofynnwyd iddynt ymateb.

Dyma'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r cylch gwaith hwn:

- Ysgol Uwchradd Argoed, Sir y Fflint;
- Ysgol Uwchradd Bedwas, Caerffili;
- Ysgol Uwchradd Gatholig yr Esgob Hedley, Merthyr Tudful;
- Ysgol Gynradd y Coed-duon, Caerffili;
- Ysgol Gynradd Casllwchwr, Abertawe;
- Ysgol Gynradd Cwm, Blaenau Gwent;
- Ysgol Gyfun Gymunedol Cwrt Sart, Castell-nedd Port Talbot;
- Ysgol Greenhill, Sir Benfro;
- Ysgol Brenin Harri'r VIII, Sir Fynwy;
- Ysgol Uwchradd Llanfyllin, Powys;
- Ysgol Gynradd Pen-bre, Sir Gaerfyrddin;
- Ysgol Gynradd Portmead, Abertawe;
- Ysgol Gynradd Rhymni, Caerdydd;
- Ysgol Gyfun Gatholig Sant John Lloyd, Sir Gaerfyrddin;
- Ysgol y Llys, Caerdydd;
- Ysgol Gynradd Aberystwyth, Ceredigion;
- Ysgol Bodfari, Sir Ddinbych;
- Ysgol Bro Famau, Sir Ddinbych;
- Ysgol Brynhyfryd, Sir Ddinbych; ac
- Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, Caerdydd.

Atodiad 2: Astudiaethau achos

Enghreifftiau o ddulliau a ddefnyddiwyd gan ysgolion i ddatblygu darpariaeth addysg ariannol.

Astudiaeth achos 1

Ysgol Gynradd y Coed-duon, Caerffili

Cyd-destun

Ysgol gynradd fawr yw Ysgol Gynradd y Coed-duon, sydd wedi'i lleoli yn rhanbarth Islwyn yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Mae 443 o ddysgwyr cyfwerth ag amser llawn ar y gofrestr ar hyn o bryd, ac mae gan 16% o'r dysgwyr hyn hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Strategaeth

Fe wnaeth y pennaeth a'r dirprwy bennaeth, gyda chefnogaeth dda gan bob un o'r staff, drefnu rhaglen fanwl o weithgareddau wedi'u cynllunio'n ofalus ar draws y cwricwlwm. Cynlluniwyd y gweithgareddau hyn i ddatblygu ymwybyddiaeth ariannol dysgwyr, yn ogystal â'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth i wneud penderfyniadau ariannol annibynnol a chadarn.

Gweithredu

Mynychodd y dirprwy bennaeth sesiwn hyfforddi addysg ariannol wedi'i chynnal gan Uned Addysg Ariannol Cymru ac wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Ar ôl dychwelyd i'r ysgol, gwnaed trefniadau i bob athro gael hyfforddiant, gan ganolbwyntio ar arfer orau a datblygu'r ddarpariaeth yn yr ysgol. Yn ystod yr hyfforddiant, trafododd athrawon sut i ddatblygu eu rhaglen addysg ariannol gan ennyn diddordeb pob dysgwr. Nododd Uned Addysg Ariannol Cymru ystod o adnoddau sydd fwyaf addas ar gyfer yr ysgol a'i dysgwyr.

O ganlyniad i'r hyfforddiant:

- cymerodd pob un o'r dysgwyr ran mewn 'Wythnos Arian' yn ddiweddar. Ar ddechrau'r wythnos, llenwyd holiadur gan fwyafrif y dysgwyr i alluogi athrawon i asesu eu gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth. Defnyddiodd athrawon y wybodaeth hon i gynllunio cynllun gwaith a chynlluniau gwersi manwl ac i ddarparu ystod o weithgareddau yr ymgymerwyd â nhw yn ystod yr 'Wythnos Arian'; a
- thrwy gydol y flwyddyn, trefnwyd ystod o weithgareddau ychwanegol i gefnogi'r wythnos ffocws. Roedd y rhain yn cynnwys digwyddiadau menter a chodi arian ar gyfer elusennau. Mae'r cynllun gwaith yn galluogi pob un o'r athrawon i weithio gyda'i gilydd yn effeithiol i gynllunio ar gyfer dilyniant. Mae adborth gan ddysgwyr yn helpu'r ysgol i wneud yn siŵr bod y gweithgareddau yn heriol ac yn bodloni eu hanghenion.

Deilliannau

Mae gan y dysgwyr wybodaeth dda am faterion ariannol, er enghraifft pwysigrwydd cynilo, ac am y gwahanol fathau o ddyled a chredyd. Mae rhai dysgwyr hŷn hefyd wedi sefydlu cwmni cydweithredol ffrwythau a llysiau i ymarfer ac atgyfnerthu eu medrau addysg ariannol mewn cyd-destun dyddiol go iawn. Mae llawer o ddysgwyr yn rhannu eu medrau rheoli arian gwell gyda'u teuluoedd ac yn cyfrannu at benderfyniadau ariannol o ddydd i ddydd.

Astudiaeth achos 2

Ysgol Uwchradd Gatholig yr Esgob Hedley, Merthyr Tudful

Cyd-destun

Ysgol 11-19 gymysg, cyfrwng Saesneg a gynorthwyir yn wirfoddol yw Ysgol Uwchradd Gatholig yr Esgob Hedley ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Mae 656 o ddysgwyr ar y gofrestr ar hyn o bryd. Mae'r ysgol yn gwasanaethu ardal sydd dan anfantais yn economaidd. Mae gan ddau ddeg pump y cant o ddysgwyr hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r ffigur hwn uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 17.1%

Strategaeth

Mae'r pennaeth cynorthwyol wedi cydlynu ystod o weithgareddau ar draws pob cyfnod allweddol i ddatblygu gwybodaeth, medrau a dealltwriaeth dysgwyr o faterion ariannol. Mae staff o nifer o adrannau ar draws y cwricwlwm yn cymryd rhan mewn cynllunio a chyflwyno'r rhaglen addysg ariannol. Oherwydd lleoliad yr ysgol mewn ardal sydd dan anfantais economaidd, fe wnaeth staff yn yr ysgol roi pwysigrwydd mawr i ddatblygu'r agwedd hon ar y cwricwlwm am gyfnod hir.

Gweithredu

Trwy ei rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol a thrwy ffyrdd eraill, mae wedi darparu gweithgareddau sy'n cynnwys gwasanaethau blwyddyn, gyda ffocws ar agweddau ar fenthyca arian, dyled a chynilion, yn ogystal â nifer o weithgareddau menter.

I sicrhau bod dysgwyr yn gwneud cynnydd da, mae'r pennaeth cynorthwyol wedi mynd ati'n ofalus i fapio'r gweithgareddau i ymgymryd â nhw ac mae'n cyfarfod yn rheolaidd â'r athrawon sy'n cyflwyno addysg bersonol a chymdeithasol. Mae cyfarfodydd rheolaidd yn gwneud yn siŵr bod athrawon yn cael cyfle i ddefnyddio'r adnoddau diweddaraf, gan gynnwys dogfennau arweiniad, a'u bod yn trafod y datblygiadau perthnasol diweddar yn y maes hwn o'r cwricwlwm gyda'u dysgwyr.

Deilliannau

Caiff pob un o'r dysgwyr gyfle i ddefnyddio'r medrau y maent wedi'u datblygu ac maent yn defnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau menter. Mae dysgwyr hŷn yn cymryd rhan mewn cystadlaethau gydag ysgolion lleol. Yn ystod y digwyddiadau hyn, mae dysgwyr yn cyfarfod â phobl fusnes leol ac yn datblygu eu medrau a'u dealltwriaeth mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn.

Astudiaeth achos 3

Ysgol Gynradd Pen-bre, Sir Gaerfyrddin

Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Pen-bre wedi'i lleoli yng nghanol pentref Pen-bre, tua phum milltir i'r gorllewin o Lanelli. Mae'n gwasanaethu'r pentref ei hun a'r ardal gyfagos a disgrifir yr ardal fel un nad yw naill ai'n arbennig o ffyniannus nac ychwaith dan anfantais yn economaidd. Mae 209 o ddysgwyr ar y gofrestr ar hyn o bryd, ac mae gan ryw 13% ohonynt hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Strategaeth

Datblygwyd strategaeth gan bob un o'r staff yn yr ysgol i ddatblygu dealltwriaeth dysgwyr o faterion ariannol a'u medrau i wneud penderfyniadau ariannol annibynnol. Mae gan yr ysgol aelod dynodedig o staff i gydlynu'r ddarpariaeth addysg ariannol, sy'n cael cefnogaeth dda gan y pennaeth a'r uwch dîm arweinyddiaeth. Mae gan yr ysgol bolisi addysg ariannol sy'n amlygu tasgau, ymagweddau, dulliau, adnoddau ac asesiadau eglur sy'n gysylltiedig ag addysg ariannol. Mae'r polisi hefyd yn nodi prosiectau ysgol gyfan a phrosiectau wedi'u harwain gan ddisgyblion.

Gweithredu

Mae'r cydlynydd wedi mapio gweithgareddau sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau ysgol gyfan eraill gan gynnwys llais y disgybl ac addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy.

Mae'r ysgol wedi llunio cynlluniau gwaith helaeth ar gyfer pob grŵp blwyddyn a chynlluniau gwersi ac mae wedi rhannu'r rhain â phob aelod o staff. Mae amcanion penodol sy'n gysylltiedig ag addysg ariannol. Mae pob un o'r staff wedi cael hyfforddiant ac maent i gyd yn ymwybodol o weledigaeth yr ysgol i hyrwyddo ac ymestyn gallu ariannol y dysgwyr.

Deilliannau

O ganlyniad, mae dealltwriaeth dysgwyr o faterion ariannol a'r medrau perthnasol wedi gwella'n sylweddol. Gall dysgwyr yn awr drafod ystod o faterion ariannol yn hyderus, gan ddefnyddio ystod o eirfa gywir, sy'n benodol i bwnc.

Astudiaeth achos 4

Ysgol Gynradd Rhymni, Caerdydd

Cyd-destun

Agorwyd Ysgol Gynradd Rhymni ym Medi 2008 yn sgil uno Ysgol Fabanod Rhymni gydag Ysgol Iau Rhymni. Mae'r ysgol wedi'i lleoli ar ymylon dwyreiniol Caerdydd. Mae un deg pedwar y cant o deuluoedd yn byw mewn ardal 'Cymunedau yn Gyntaf'. Mae 460 o ddysgwyr ar y gofrestr ac mae gan 19% o'r dysgwyr hyn hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Strategaeth

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i ddatblygu ymwybyddiaeth ariannol dysgwyr, gan wneud yn siŵr bod gan ddysgwyr wybodaeth a dealltwriaeth briodol i wneud penderfyniadau ariannol annibynnol a chadarn. Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth wedi trefnu rhaglen fanwl o weithgareddau wedi'u cynllunio'n ofalus ar draws y cwricwlwm.

Gweithredu

Mae pob un o'r staff yn cymryd rhan ac maent wedi ymrwymo i gefnogi'r gweithgareddau hyn. Mae'r ysgol wedi nodi cyfleoedd i ddatblygu addysg ariannol yn ystod sesiynau mathemateg ac addysg bersonol a chymdeithasol. Mae gan yr ysgol raglen allgyrsiol drylwyr iawn hefyd i alluogi dysgwyr i ddefnyddio eu medrau mewn cyd-destunau bywyd go iawn. Mae'r rhain yn cynnwys ymweliadau â busnesau lleol, dysgwyr yn sefydlu eu mentrau eu hunain i ddefnyddio a datblygu eu medrau a chael arweiniad arbenigol gan sefydliadau ariannol.

Deilliannau

Mae dysgwyr hŷn yn siarad yn hyderus am faterion ariannol, gan gynnwys pwysigrwydd cyllidebu a chynllunio ariannol da. Mae llawer o ddysgwyr yn deall manteision ac anfanteision cardiau credyd. Mae rhai dysgwyr wedi sefydlu eu mentrau eu hunain ac maent yn mwynhau defnyddio eu medrau a'u dealltwriaeth yn ymarferol.

Astudiaeth achos 5

Ysgol Gyfun Gymunedol Cwrt Sart, Castell-nedd Port Talbot

Cyd-destun

Ysgol gymysg, gymunedol 11-16 yn awdurdod unedol Castell-nedd Port Talbot yw Ysgol Gyfun Gymunedol Cwrt Sart. Mae 533 o ddysgwyr ar y gofrestr ar hyn o bryd, ac mae gan 37.3% o'r dysgwyr hyn hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r ffigur hwn gryn dipyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 17.1%

Strategaeth

Mae staff yn yr ysgol yn dangos ymrwymiad cryf i ddatblygu dealltwriaeth dysgwyr o faterion ariannol, yn ogystal â gwneud yn siŵr bod ganddynt y medrau i wneud penderfyniadau ariannol annibynnol. Mae gan yr ysgol gysylltiadau da iawn gyda'r Undeb Credyd lleol sy'n darparu arweiniad a hyfforddiant ar gyfer dysgwyr hŷn ar sefydlu a rhedeg Undeb Credyd yr ysgol ei hun. Mae staff o'r adrannau mathemateg ac addysg bersonol a chymdeithasol yn cydweithio'n agosach erbyn hyn. Maent wedi llunio cynlluniau gwaith manwl, gan nodi ystod o gyfleoedd i ddatblygu darpariaeth addysg ariannol, nid yn unig yn ystod gwersi wedi'u hamserlennu ond yn ystod gweithgareddau allgyrsiol hefyd.

Gweithredu

Mae dysgwyr sy'n mynychu Canolfan Cymorth Dysgu'r ysgol ar gyfer Nam ar y Clyw yn cael cymorth ychwanegol gyda llythrennedd a rhifedd sylfaenol. Un agwedd ar y cymorth hwn yw rheolaeth ariannol mewn bywyd bob dydd. Mae dysgwyr cyfnod allweddol 4 yn y ddarpariaeth adnoddau yn defnyddio eu medrau ac yn datblygu eu hannibyniaeth ariannol ymhellach yn ystod ymweliadau â busnesau lleol i weld systemau rheoli ariannol ar waith. Mae pob un o'r dysgwyr yng nghyfnod allweddol 3 yn dilyn prosiect Cymhwyso Rhifedd lefel 1 lle mae dysgwyr yn datrys problemau mathemategol mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn.

Deilliannau

Mae'r ysgol yn dechrau gweld effaith y mentrau hyn. Mae tystiolaeth anecdotaidd yn dangos bod dysgwyr yn llawer mwy ymwybodol erbyn hyn o sut i wella'r ffordd y maent yn rheoli arian, maent yn cadw golwg well ar eu gwariant a'u cynilion ac maent yn gwneud dewisiadau fwyfwy gwybodus am ystod o gynnyrch ariannol sydd ar gael i ddefnyddwyr.

Astudiaeth achos 6

Ysgol Uwchradd Llanfyllin, Powys

Cyd-destun

Ysgol gymysg, naturiol ddwyieithog 11-18 yn awdurdod unedol Powys yw Ysgol Uwchradd Llanfyllin. Mae 963 o ddysgwyr ar y gofrestr ar hyn o bryd. Mae gan chwech y cant o'r disgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r ffigur hwn gryn dipyn islaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion uwchradd.

Strategaeth

Yn dilyn ymgynghori â dysgwyr, mae'r ysgol wedi ailstrwythuro ei rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yn ddiweddar i ddarparu ystod ehangach a mwy priodol o gyfleoedd a phrofiadau ar gyfer dysgwyr. Un agwedd ar y rhaglen yw addysg ariannol.

Gweithredu

Yn ystod tymor y gwanwyn, mae dysgwyr Blwyddyn 11 sy'n dilyn cwrs mathemateg TGAU modiwlaidd yn gweithio tuag at gymwysterau Cymhwyso Rhif, medrau hanfodol Cymru, lefel 2.

Deilliannau

Gallant adeiladu ar eu gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth o faterion ariannol a ddatblygwyd yn ystod gwersi addysg bersonol a chymdeithasol ac maent yn eu defnyddio mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn, gan gynnwys symud tŷ, newid a dewis pris ffôn symudol a phrynu yswiriant car. Mae'r rhaglen hon wedi galluogi dysgwyr i wella eu dealltwriaeth o faterion ariannol bob dydd. Siaradodd dysgwyr yn gadarnhaol am y cyfleoedd hyn i ddatblygu medrau bywyd hanfodol.

Astudiaeth achos 7

Ysgol Gynradd Casllwchwr, Abertawe

Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Casllwchwr wedi'i lleoli ym mhentref mawr Llwchwr Isaf, hanner ffordd rhwng Abertawe a Llanelli ar aber afon Llwchwr. Mae 225 o ddysgwyr ar y gofrestr ar hyn o bryd. Mae gan ryw 17% o'r dysgwyr hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Strategaeth

Mae staff yn yr ysgol wedi datblygu rhaglen fanwl o weithgareddau i ddatblygu gwybodaeth, medrau a dealltwriaeth dysgwyr o faterion ariannol. Fel rhan o'r rhaglen hon, mae'r ysgol wedi datblygu cysylltiadau sydd wedi ennill eu plwyf gyda nifer o fusnesau lleol. Maent yn mynd ati i gefnogi rhaglen addysg ariannol yr ysgol ac yn croesawu ymweliadau gan ddysgwyr o bob oedran.

Gweithredu

Mae pob un o'r dysgwyr yn yr ysgol yn cymryd rhan mewn wythnos fenter flynyddol ac fe gaiff dosbarthiadau gyllideb benodedig i ddechrau eu busnes eu hunain. Mae dysgwyr yn ymweld â'r busnesau lleol i drafod a phrynu stoc ac maent yn cymryd rhan mewn sesiynau holi ac ateb am faterion ariannol rhedeg busnes. Mae elfen gref o gystadleuaeth yn bodoli rhwng y dosbarthiadau ac mae'r dosbarth buddugol yn penderfynu sut i wario ei elw. Daeth hyn i gyfanswm o fwy na £100 yn ddiweddar. Cyfrannodd dysgwyr hanner eu helw at elusen leol ac wedyn gwariwyd gweddill yr arian ar adnoddau ystafell ddosbarth.

Deilliannau

Mae’r math hwn o weithgarwch yn rhoi cyfle i ddysgwyr weithio gyda’i gilydd i ddatblygu eu medrau gwaith tîm a datrys problemau. Maent yn penderfynu ar y math o fusnes yr hoffent ei sefydlu ac yn gwneud ystod o gyfrifiadau mathemategol, gan gynnwys elw a cholled, cyfrifo stoc a phenderfynu ar bris priodol ar gyfer gwerthu nwyddau. Mae dysgwyr wedi’u cymell yn dda iawn ac yn frwdfrydig. Mae’r wythnos fenter flynyddol wedi rhoi cyfle iddynt roi’r medrau ariannol y maent wedi’u dysgu ar waith trwy gydol y flwyddyn mewn amgylchedd economaidd cystadleuol.

Atodiad 3: Geirfa

UAAC	Uned Addysg Ariannol Cymru
ABCh	Addysg bersonol a chymdeithasol
BTEC	Cyngor Addysg Busnes a Thechnegydd

Atodiad 4: Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg

Catherine Evans AEM	Awdur
Terwyn Tomos AY	Aelod o dîm yr arolwg